**Atodiad 2:**
**Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (gyda Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd) ar gyfer Drafft o Gynllun Strategol Addysg 2026–2030**

## FFURFLEN ASESU EFFAITH CYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith Cydraddoldeb cyfredol wrth lenwi'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig, i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y dogfennau yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol - Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy’n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy’n Fwy Cyfartal - Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG**

**Swyddog arweiniol:** Nicola Goodman, Arweinydd Cynllunio Strategol a Model Buddsoddi Cydfuddiannol y Cyngor
**Cyfarwyddwr:** Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
**Cyfadran:** Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
**Dyddiad:** 17 Tachwedd 2025

**1. a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?**

| Strategaeth/Cynllun | Ail-fodelu/Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Safbwynt |
|---|---|---|---|---|
| X | | | | |

**1. b)Beth yw enw'r cynnig?**
Drafft o Gynllun Strategol Addysg 2026–2030

**1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.**
A ninnau'n Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, ein pwrpas craidd yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf fynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog, sy'n eu galluogi nhw i gyflawni'r deilliannau gorau posibl yn unol â'u gallu.

Mae'r Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am y 4 blynedd nesaf, gan amlinellu ein gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer ein holl ysgolion yn Rhondda Cynon Taf yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-2030.[1] A ninnau'n Gyfadran Addysg, mae sicrhau bod gan bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf fynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog, sy'n eu galluogi nhw i gyflawni eu dyheadau, yn hollbwysig.

Mae'r Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar yr angen am gydweithio effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb. Mae'r Cynllun drafft wedi'i ategu gan egwyddor foesol gref a dyhead i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad (rhwng plant a phobl ifainc sy'n byw mewn tlodi a'r rhai sydd ddim) a sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysgu a dysgu o ansawdd uchel mewn ysgolion rhagorol ac yn derbyn cymorth amserol i gyflawni eu potensial.

---

[1] 'Gweithio Gyda'n Cymunedau - Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-2030'

Mae'r Cynllun drafft yn cynnwys cyfeiriad strategol clir ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau cyffredin i gyflawni'r weledigaeth.

Ein gweledigaeth newydd yw:
**'Cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb'.**

Mae ein Cynllun Strategol drafft newydd ar gyfer 2026–2030 yn blaenoriaethu'r meysydd a nodwyd o hunanwerthuso gwasanaethau cadarn, adborth Estyn ac adborth cynnar gan randdeiliaid a gasglwyd yn nhymorau'r gwanwyn a'r haf 2025. Maen nhw hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, yn unol â'n Cynllun Corfforaethol 2024–2030 'Gweithio gyda'n Cymunedau'. Dyma bedwar blaenoriaeth strategol y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ar gyfer 2026-30, a fydd yn ein galluogi ni i gyflawni ein gweledigaeth:

**Blaenoriaeth Strategol 1:** Sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn, a gwelliant parhaus trwy gydweithrediadau effeithiol
**Blaenoriaeth Strategol 2:** Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb
**Blaenoriaeth Strategol 3:** Sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd uchaf a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad
**Blaenoriaeth Strategol 4** Cyflawni Cymunedau Diogel a Chynaliadwy ar gyfer Dysgu

Dyma'r prif strategaethau a pholisïau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026–2030:

Cenedlaethol:
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg i ddisgyblion 3 i 19 oed yng Nghymru.
- Y Rhaglen Llywodraethu: diweddariad.
- Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg
- Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2024 i 2025.
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw (Cymru) 2013.
- Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025

- Cynllun Strategol Carbon Sero-Net Llywodraeth Cymru: 2022
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.
- Cwricwlwm i Gymru – 2022.
- Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir –2022.
- Strategaeth Llywodraeth Cymru – Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb – 2022.
- Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Deddf Gofal Plant 2006.
- Gofal Plant Llywodraeth Cymru
- Lleihau Niferoedd y Dosbarth Babanod
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygiad 2021 o Darged Allyriadau 2050).

Rhanbarthol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf: Asesiad Lles 2022

Lleol:

- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: 'Gweithio gyda'n Cymunedau'.
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2006 i 2021 (ac yn ei dro, Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig 2022–37 sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru).
- Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2022 i 2027.
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2022 i 2032.
- Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2022 i 2027
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024-2028

Mae yna lawer o gysylltiadau â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2024 i 2030, gan fod y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r amcanion lles, ac mae llawer ohonynt yn ymwneud yn benodol â'n plant a'n pobl ifainc, ein hysgolion a gwaith y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, fel y manylir isod:-

- Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys yr amcan lles **'Pobl a chymunedau'**, ac un o'r blaenoriaethau o fewn yr amcan yma yw

bod **'plant a phobl ifainc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'r cyfle i ddysgu a thyfu'n ddiogel'**, gyda rhai o'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Cynorthwyo plant a theuluoedd i gael y cyfleoedd gorau i ddatblygu, bod yn iach, a mwynhau gweithgareddau mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol;
- Helpu plant o bob gallu a chefndir i wneud y gorau y gallen nhw yn yr ysgol, gan ganolbwyntio ar welliant parhaus a safonau uchel;
- Nodi a diwallu anghenion ein disgyblion a'u teuluoedd cyn gynted â phosibl;
- Darparu amgylcheddau dysgu gwych trwy leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion newydd a gwell, gan gynnwys ysgol arbennig newydd a gwneud addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch i bawb;
- Cefnogi plant a phobl ifainc o bob gallu a chefndir i oresgyn rhwystrau i ddysgu, gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi, fel bod modd iddyn nhw gyflawni eu deilliannau addysgol gorau;
- Sicrhau bod gan blant, pobl ifainc a'u teuluoedd lais a'u bod nhw'n helpu i lunio a gwella ein gwasanaethau a'n profiadau addysgol.

- Blaenoriaeth arall o dan amcan lles **'Pobl a chymunedau'** yw sicrhau bod **'modd i drigolion ofalu am eu hiechyd a'u lles a byw bywydau iach, annibynnol a boddhaus'**, gyda rhai o'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys:
  - Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion iechyd ehangach sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfleoedd bywyd ein trigolion trwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd;
  - Datblygu ysgolion bro sy'n darparu ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn aml y tu hwnt i oriau'r ysgol, er mwyn diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach;

- Blaenoriaeth arall o dan amcan lles **'Pobl a chymunedau'** yw **'diogelu ein trigolion mwyaf agored i niwed o bob oed, gan ddarparu amddiffyniad, gofal a chefnogaeth pan maen nhw angen fwyaf fel bod modd iddyn nhw wneud y gorau o'u potensial'**, gyda rhai o'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys:
  - Diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed, esgeulustod neu gamfanteisio;
  - Rhoi'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifainc agored i niwed a sicrhau mynediad i amgylcheddau diogel a chefnogol sy'n addas i'w hanghenion, er mwyn gwella eu lles.

- Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: 'Gweithio gyda'n Cymunedau' hefyd yn cynnwys amcan lles am **'Byd Natur a'r Amgylchedd'** ac un o'r blaenoriaethau o fewn yr amcan hwn yw **'gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol'**, gyda rhai o'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys:
  - Diogelu, cefnogi a gweithio gyda byd natur i fynd i'r afael ag argyfyngau'r Hinsawdd a Byd Natur;

   - Rheoli tir y sector cyhoeddus i gefnogi prosiectau cynaliadwy gan gynnwys cynhyrchu ‘ynni gwyrdd’, storio carbon, rheoli perygl llifogydd a chynyddu bioamrywiaeth a thyfu bwyd yn y gymuned.

- Blaenoriaeth arall o dan amcan lles **'Natur a'r Amgylchedd'** yw **'defnyddio cyfoeth byd natur er budd pobl a chymunedau'**, gyda rhai o'r camau gweithredu o dan y flaenoriaeth hon yn cynnwys:
   - Parhau i fuddsoddi mewn ynni solar ar draws ein hysgolion ac adeiladau’r Cyngor;
   - Darparu amrywiaeth o fannau gwyrdd o safon uchel i bobl a chymunedau eu mwynhau.

- Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2024 i 2030: 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn cynnwys yr amcan lles **'Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg'** ac un o flaenoriaethau'r amcan yma yw **'RhCT lle mae diwylliant a threftadaeth yn fywiog, a bod gwahaniaethau’n cael eu dathlu mewn cymunedau cadarn sy’n hybu llesiant**'. Un o'r camau gweithredu yw 'Parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel ei bod yn ffynnu yn ein cartrefi, ein cymunedau a'n gwaith'.
   - Parhau i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg fel ei bod yn ffynnu yn ein cartrefi, ein cymunedau a’n gwaith;
   - Cydnabod a gwella ein hymwybyddiaeth o amrywiaeth yn ein cymunedau fel ein bod ni'n cryfhau cydlyniant cymunedol ac yn diwallu anghenion ein trigolion o bob cefndir yn well.

Bydd Cynllun Strategol y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn adlewyrchu'r blaenoriaethau trosfwaol a'r camau gweithredu penodol yma, a bydd y Cynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau'r Gyfadran a Chynlluniau'r Gwasanaeth i gyd yn rhedeg ochr yn ochr i sicrhau bod datblygiadau strategol yn alinio.

**1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.**

Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**1.e) Amlinellwch pwy mae'r cynnig yma'n effeithio arno:**

- Defnyddwyr y Gwasanaeth: X
- Gweithwyr: X
- Y Gymuned Ehangach: X

**ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO – A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LAWN?**
Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl ynghylch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn o reidrwydd yn negyddol, ond gall effeithio ar grŵp â nodwedd benodol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**
Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod y gallai fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchodedig.

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| **Oed** *(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn).* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob oed, yn ogystal â staff, rhieni/gwarcheidwaid, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.<br><br>Bydd y Cynllun Strategol yn cefnogi'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wrth i ni geisio cyflawni ein gweledigaeth o **'Gydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb'**, a hynny wrth gyflawni ein blaenoriaethau strategol o: | **<u>Pobl ifainc (h.y. o oedran ysgol)</u>**<br><br>Bydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn cyflawni ein gweledigaeth trwy helpu plant a phobl ifainc i gael y dechrau gorau mewn bywyd a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu trwy system blynyddoedd cynnar well, gwaith amlasiantaeth/ar y cyd, a hefyd trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd a gwell i ysgolion a chymunedau. Bydd rhoi dulliau arwain a llywodraeth cadarn ar waith yn ein hysgolion a'n gwasanaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth 1: Sicrhau arweinyddiaeth gadarn, trefniadau llywodraethu a gwelliant parhaus trwy gydweithio'n effeithiol.<br><br>Blaenoriaeth 2: Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n sicrhau cynnydd a chanlyniadau da i bawb.<br><br>Blaenoriaeth 3: Sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at addysg gynhwysol o'r safon uchaf a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau i'w dysgu a chyfranogiad.<br><br>Blaenoriaeth 4:  Cyflawni Cymunedau Diogel a Chynaliadwy ar gyfer Dysgu<br><br>Bydd y cynllun strategol yma'n canolbwyntio ar ddisgyblion o 0-25 oed yn achos ADY. I bob disgybl arall, bydd yn ymwneud â phlant 0-19 oed.<br><br>Mae'r Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar yr angen am gydweithio effeithiol i sicrhau | gwelliannau parhaus i ysgolion a gwasanaethau yn ogystal â dulliau addysgu, dysgu ac asesu o ansawdd uchel.<br><br>Mae modd gweld tystiolaeth o ymdrechion y Cyngor i sicrhau bod gan bod gan ddisgyblion fynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd uchaf a'r gefnogaeth gywir i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad drwy'r buddsoddiad mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar, darpariaeth ADY, darpariaeth Gymraeg a phrosiectau adeiladau ysgolion newydd sy'n gwbl hygyrch.<br><br>Amlinellir y buddsoddiad mewn ysgolion a darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn adroddiad i'r Cabinet ar 22 Medi 2025 (Diweddariad ar Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor PDF 159 KB), sy'n dangos bod bron i £505 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn ysgolion dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Band A Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, rhaglen Band B, yn ogystal â chostau buddsoddi cynnar ar gyfer datblygu dyluniadau i hwyluso'r rhaglen dreigl 9 mlynedd newydd. Bydd y buddsoddiad hwn, ynghyd â'r rhaglen gyfalaf 3 blynedd newydd ar gyfer addysg 2025/26 i 2027/28 sy'n gyfanswm o £87 miliwn, yr hyn sy'n weddill o'r Rhaglen Dreigl 9 mlynedd newydd Cymunedau Dysgu |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i ddisgyblion o bob oed**.**<br><br>Serch hynny, mae manteision posibl i'r gymuned ehangach hefyd o ran mynediad at adeiladau cymunedol ar safleoedd ysgolion; yn ogystal â mynediad at wasanaethau allweddol sydd â'r nod o gefnogi rhieni/cynhalwyr/teuluoedd ag anghenion penodol (e.e. Gwasanaethau Mynychu'r Ysgol a Lles, Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant). Bydd buddsoddiad parhaus mewn dysgu a hyfforddiant proffesiynol i staff a llywodraethwyr yn sicrhau gwelliant parhaus ac yn darparu addysgu, dysgu a chefnogaeth o'r ansawdd uchaf yn ein hysgolion.<br><br>Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant a phobl ifainc sy'n byw mewn tlodi a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tlodi yn parhau i fod yn rhy eang, felly mae gorchymyn moesol cryf a dyhead i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad hwn a sicrhau bod pob disgybl (waeth beth fo'i amgylchiadau unigol) yn gallu manteisio ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel mewn ysgolion gwych, yn ogystal â chefnogaeth | Cynaliadwy sy'n ymrwymo buddsoddiad pellach o £393 miliwn, y Grant Cyfalaf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Grantiau Ysgolion Bro a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal â'r buddsoddiad rhaglen gyfalaf parhaus a fydd yn cael ei gyflawni y tu hwnt i 2027/28, yn golygu, ar ôl cwblhau'r Rhaglen Dreigl 9 mlynedd newydd ym mis Mawrth 2033, y disgwylir y bydd y buddsoddiad cronnus a ddarparwyd yn ysgolion Rhondda Cynon Taf ers 2014 yn cyfateb i dros £988 miliwn. Mae hyn yn arddangos ymrwymiad parhais i gyflawni Blaenoriaeth Strategol 4, sef 'darparu cymunedau dysgu diogel a chynaliadwy'.<br><br>Mae'r Cynllun Strategol hefyd yn anelu at sicrhau parhad rhagorol o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) – yn benodol, mae blaenoriaethau strategol 3 a 4, sef 'sicrhau bod gan bob disgybl fynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd uchaf a'r gefnogaeth gywir i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad' a 'darparu cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu' eisoes yn cael eu gweithredu gyda thwf yn y ddarpariaeth ADY yn cael ei weld trwy sawl prosiect ADY a gwblhawyd yn ddiweddar, neu sy'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd, gan gynnwys:- |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | brydlon i'w alluogi i gyflawni ei botensial yn ôl yr angen.<br><br>Nod y Cynllun Strategol yw sicrhau bod ein **holl** ddisgyblion yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cael mynediad at y cymorth cywir ar yr adeg cywir, fel eu bod nhw'n dod yn ddysgwyr gydol oes llwyddiannus. Mae'n nodi'r angen i ymyrryd yn gynnar ac yn effeithiol, gan fod hyn yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau'n gynnar a sicrhau tegwch i'r disgyblion mwyaf agored i niwed.<br><br>Mae Uwch Swyddog Gwella Ysgolion a Phennaeth Cyflawniad yr awdurdod lleol yn cydweithio â chydweithwyr mewn awdurdodau cyfagos, gan sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu a bod cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn briodol, er enghraifft, wrth ddatblygu dull newydd RhCT o wella ysgolion a chydweithio.<br><br>Mae'r Cynllun Strategol yn ceisio adeiladu ar waith rhagorol sydd eisoes yn mynd rhagddo yn y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a | - Agorwyd safle blynyddoedd cynnar ychwanegol ar gyfer Ysgol Hen Felin ym mis Ebrill 2025;<br>- Agorwyd 5 Dosbarth Cynnal Dysgu newydd ym mis Medi 2025 -<br>[Cynigion i ehangu Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Prif Ffrwd – Anghenion Dysgu Ychwanegol];<br>- Estyniad i Ysgol Arbennig Maesgwyn a agorwyd ym mis Medi 2025;<br>- Ysgol ADY newydd sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd yng Nghwm Clydach - mae disgwyl iddi hi agor yn 2026.<br>- Estyniad i Ysgol Tŷ Coch (safle Buarth-y-Capel) sydd yn y camau datblygu ar hyn o bryd - i'w gwblhau yn 2026.<br>- Agorwyd canolfan lloeren newydd ar gyfer Ysgol Hen Felin ym mis Ebrill 2025.<br><br>Mae cwmpas y gefnogaeth yn RhCT mewn perthynas ag ADY wedi'i fanylu ymhellach mewn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar 9 Ebrill 2025 - anghenion dysgu ychwanegol - y continwwm o gefnogaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br><br>Mae ffocws ar wella canlyniadau i bob disgybl, yn enwedig y rhai hynny sy'n wynebu heriau economaidd- |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | chyda'n hysgolion a'n partneriaid er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o 'gydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb'.<br><br>Mae Swyddogion Gwella Ysgolion yn ymgymryd â gweithgareddau gwella ysgolion yn rheolaidd, gan weld yr effaith ar y disgyblion mwyaf agored i niwed gyda'u llygaid eu hunain. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd i Swyddogion Gwella Ysgolion gydweithio i weld a rhannu arfer da yn y maes hwn, sy'n cefnogi model gwella ysgolion newydd yr awdurdod lleol a gwaith cysylltiedig ar y cyd yn uniongyrchol. | gymdeithasol, a blaenoriaeth i ddarparu 'y gefnogaeth gywir i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad a dysgu' (Blaenoriaeth strategol 3). Dyma rai enghreifftiau:<br>- Penodi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd sy'n gweithio mewn ysgolion unigol ac yn parhau i ddarparu cefnogaeth amhrisiadwy i deuluoedd. Mae'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi sicrhau cyllid a darpariaeth Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ar gyfer 34 o ysgolion, gyda chynlluniau i ehangu hyn ymhellach yn 2025/26.<br>- Y Rhaglen Bwyd a Hwyl sy'n parhau i gael ei darparu drwy gydol pob cyfnod gwyliau haf, gan ddarparu prydau iach, addysg am fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi i nifer o ysgolion mewn ardaloedd o'n cymunedau sydd fwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol. Yn ystod haf 2025, cafodd hyn ei roi ar waith mewn 14 lleoliad (gan gynnwys ysgolion ADY ac ysgolion Cymraeg).<br><br>Cafodd y cymorth i ddisgyblion agored i niwed, materion mynychu'r ysgol a lles, a'r dull amlasiantaeth oll eu crybwyll |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | yn Arolygiad diweddaraf Estyn o wasanaethau addysg y Cyngor yn 2023. Arolygiad Estyn (2023) Nodwyd:<br>*'… gall swyddogion presenoldeb a lles fanteisio ar ddata presenoldeb byw wrth ymweld ag ysgolion, sy'n eu galluogi i herio a chefnogi ysgolion yn briodol. Yn ogystal, mae swyddogion yn gwerthfawrogi llais dysgwyr bregus a'u teuluoedd, yn gyffredinol, ac yn defnyddio eu safbwyntiau i helpu gwerthuso a llywio datblygiad gwasanaethau.*<br><br>*Mae ffocws cryf yn yr awdurdod lleol ar gefnogi plant a'u teuluoedd cyn iddynt gyrraedd oedran ysgol statudol. Trwy ymagwedd amlasiantaeth â phartneriaid iechyd a phartneriaid eraill, mae pob plentyn yn cael cynnig gwiriad sgrinio datblygiadol pan fyddant tuag 20 mis oed. Ar ôl hynny, caiff rhieni eu cefnogi'n dda i hyrwyddo iaith a lleferydd eu plentyn trwy raglenni un-i-un a rhaglenni cymunedol. Trwy Wasanaeth Teuluoedd Cydnerth yr awdurdod lleol, mae'r rhieni hyn yn cael cynnig ystod o gefnogaeth ddefnyddiol arall i fodloni eu hanghenion hefyd.*<br><br>*Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod o wasanaethau cymorth gwerthfawr i fodloni anghenion dysgwyr bregus. Er enghraifft, gall pob clwstwr o ysgolion ofyn am ymweliad cartref ar gyfer unrhyw ddysgwyr absennol y maent yn* |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | *teimlo y maent yn fregus heb fod angen i'w presenoldeb fod islaw trothwy penodol. Mae hyn yn annog ymagwedd ataliol ac yn caniatáu i gymorth gael ei gynnig mewn modd amserol. Fel arfer, mae'r ymagwedd hon yn llwyddiannus o ran cynorthwyo'r disgybl i ddychwelyd i'r ysgol erbyn dyddiad cytûn.'*<br><br>Gan weithio ar y cyd â Dysgu Proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De a 'Dysgu', mae'r gefnogaeth wedi'i hategu gan 'Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb' a'r ddogfen 'Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth. Mae'r ddogfen Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth yn cefnogi ffocws ar addysgu a darparu cwricwlwm o ansawdd uchel, arweinyddiaeth gref, lles, ac ystafelloedd dosbarth cynhwysol fel yr elfennau allweddol i sicrhau tegwch a rhagoriaeth i bob disgybl. Bydd holl staff gwella ysgolion RhCT yn datblygu ac yn darparu eu cefnogaeth i ysgolion gan ystyried anghenion disgyblion agored i niwed.<br><br>Bydd ffocws amlwg ar gyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau bod rhagor o ddisgyblion yn manteisio ar addysg Gymraeg, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn erbyn y Cynllun. Mae Pwyllgor Craffu yn adrodd yn rheolaidd ar hyn, gyda'r |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | adroddiad diweddaraf ar gael yma, gan ddangos y cynnydd a wnaed dros 2024-25:<br>Adroddiad CSCA i'r Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant<br><br>Bydd yr effaith gadarnhaol y bydd cyflawni ein blaenoriaethau strategol yn ei chael ar blant a phobl ifainc o bob grŵp oedran yn amlwg o gynnydd y disgyblion, data gwaharddiadau/presenoldeb, canlyniadau arolygiadau a gwerthusiad cyflawniad ysgolion gan Swyddogion Gwella Ysgolion.<br><br>Ers 2020, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi bron i £5 miliwn mewn darpariaethau cam 4 sy'n galluogi ysgolion i ddarparu dull addysgu mwy cynhwysol a phersonol i ddisgyblion sydd â heriau ymddygiadol neu emosiynol. Mae hyn wedi arwain at lai o waharddiadau, a gwelliannau o ran presenoldeb, ymgysylltiad a chymwysterau ar gyfer grwpiau targedig o ddisgyblion.<br><br>Mae canlyniadau TGAU a Safon Uwch gwell (data haf 2025 heb ei wirio) yn ôl llawer o fesurau yn dangos bod y |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | bwlch rhwng disgyblion RhCT a setiau data Cymru gyfan yn culhau.<br><br>Er bod presenoldeb yn y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru gyfan, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu gan 1.3 pwynt canran rhwng 2022/23 a 2024/25 ac mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu gan 2.2 pwynt canran yn yr un cyfnod. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi rhagori ar gynnydd cyfartalog Cymru o 1.5 pwynt canran yn yr un cyfnod.<br><br>Rhwng 2023/24 a 2024/25, mae nifer y gwaharddiadau parhaol wedi gostwng gan 51.7%. Mae nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau ym mhob rhan o'r awdurdod lleol yn yr un cyfnod wedi lleihau gan 23.5%.<br><br>**Pobl Hŷn (h.y. Staff/Rhieni/Gwarcheidwaid a'r Gymuned Ehangach)**<br><br>Bydd y buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol a datblygu gweithlu medrus a hyfforddedig sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i barhau i gyflawni |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Cwricwlwm Cymru a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) yn sicrhau'r ansawdd uchaf o addysgu a dysgu yn ein hysgolion.<br><br>Yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, comisiynodd yr awdurdod lleol Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i gefnogi llwybrau proffesiynol ar gyfer uwch arweinwyr a'r rheiny sydd â'u bryd ar ddod yn arweinwyr. Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd y gefnogaeth ganlynol i weithlu addysgol RhCT:<br>• Dechreuodd 34 o ymarferwyr ar y Rhaglenni Datblygu Arweinwyr Canol neu Uwch.<br>• Dechreuodd naw pennaeth newydd neu bennaeth dros dro gymryd rhan yn Rhaglen y Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro o fis Rhagfyr 2024 ymlaen.<br>• Cymerodd naw arweinydd ysgol ran yn rhaglen Dysgu Proffesiynol newydd ar Arwain Dysgwyr Bregus.<br>• Mae 52 o ysgolion yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant mewn partneriaeth â'r pum darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae 4 o'r ysgolion |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | yma'n gweithio gyda mwy nag un darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon.<br>• Cymerodd 55 o gynorthwywyr addysgu o hyd at 19 o ysgolion ran yn y rhaglenni llwybrau dysgu i gynorthwywyr addysgu. Aseswyd 12 o Gynorthwywyr Addysgu sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Darpar Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, gyda statws CALU yn cael ei ddyfarnu i bob un o'r 12.<br>• Cafodd pump o uwch arweinwyr yn RhCT gefnogaeth gan Arweinwyr System.<br>• Cefnogwyd 12 o ysgolion yn RhCT gan Arweinwyr Rhanbarthol dros Lywodraethu.<br><br>Mae buddsoddiad o'r fath mewn datblygiad proffesiynol yn cyfrannu'n fawr at Flaenoriaethau Strategol 1 a 2, sef:<br>*Blaenoriaeth 1: Sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu cadarn, a gwelliant parhaus trwy gydweithrediadau effeithiol*<br>*Blaenoriaeth 2: Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb* |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Ers mis Medi 2025, ac yn dilyn mandad Llywodraeth Cymru i ad-drefnu consortia rhanbarthol, mae gan RhCT bellach garfan gwella ysgolion pwrpasol, wedi'i leoli yn yr awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cynnwys 10 Swyddog Gwella Ysgolion ac un Uwch Swyddog Gwella Ysgolion.<br><br>Mae cefnogaeth bwrpasol yn parhau i gael ei darparu i uwch arweinwyr ac aelodau'r corff llywodraethu, yn ôl yr angen, trwy ddull hyfforddi a mentora. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithredu ei raglen 'Darpar Arweinwyr', gyda 16 o ymarferwyr yn manteisio ar y rhaglen yn 2024/25 a charfan lawn arall o 16 o ymarferwyr yn manteisio ar y rhaglen hon yn 2025/26.<br><br>Mae Dysgu Proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De a 'Dysgu', y corff Dysgu Proffesiynol cenedlaethol newydd, wrthi'n llunio rhaglenni a fydd yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad uwch arweinwyr a darpar arweinwyr ym mhob rhan o'r awdurdod lleol, mae hyn yn cynnwys y rhaglen CPCP.<br><br>Mae rhaglen ddysgu broffesiynol wedi'i chynllunio'n dda ar gyfer Swyddogion Gwella Ysgolion yn sicrhau cyfathrebu |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | clir a phrydlon, ac yn sicrhau bod diweddariadau proffesiynol yn cael eu darparu'n wythnosol a phob hanner tymor, gan eu galluogi i gefnogi ysgolion yn well.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gefnogi datblygiad gweithwyr proffesiynol addysgol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth benodol i bynciau/Meysydd Dysgu a Phrofiad, rhwydweithiau, cefnogaeth ymholi gan gymheiriaid, cydweithrediadau ac ymarferwyr arweiniol.<br><br>Mae llywodraethu cryf yn hanfodol ar gyfer gwella ysgolion, meithrin arweinyddiaeth effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol. Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth ddwyn arweinwyr i gyfrif ac mae angen hyfforddiant a chefnogaeth o ansawdd uchel, felly mae'r awdurdod lleol bellach yn ymgymryd â'r holl ddysgu proffesiynol gorfodol a di-orfodol ar gyfer llywodraethwyr, gan gynnwys hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr a Chadeiryddion newydd a hyfforddiant pellach ar sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data ysgolion i sbarduno gwelliant. Ers mis Medi 2025, mae'r awdurdod lleol wedi |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| | | | datblygu rhaglen gymorth bwrpasol a gyflwynir gan Swyddogion Gwella Ysgolion gan ddefnyddio dull hybrid.<br><br>Mewn arolwg canfyddiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025 gyda 85 o arweinwyr ysgolion yn RhCT, gofynnwyd iddynt roi eu barn ar arweinyddiaeth strategol ac ansawdd y gefnogaeth a'r gwasanaethau. Daeth adborth cadarnhaol iawn i law (fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Strategol) gyda chefnogaeth a gwasanaethau'n cael eu graddio'n rhai da neu ragorol ar gyfer y rhan fwyaf o'r categorïau gwerthuso.<br><br>Mae llinyn yn amlwg drwy flaenoriaethau strategol 1, 2 a 3, gydag arweinyddiaeth gref ac addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i bob disgybl.<br><br>Bydd y Cynllun Strategol yma'n adeiladu ar lwyddiannau'r Cynllun Strategol Addysg ar gyfer 2022-2025 a'r Arolygiad Estyn (2023) llwyddiannus o ran gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol.<br><br>Un o'r astudiaethau achos arfer gorau a nodwyd gan yr arolygiaeth oedd: |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | 'Datblygu arweinwyr y dyfodol ym myd addysgu trwy arlwy dysgu proffesiynol cryf a chynllunio olyniaeth effeithiol.', gyda'r arolygiaeth yn nodi:<br>*'Mae diwylliant cryf yn y Cyngor o fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol ei staff.  Mae cynllunio ar gyfer dysgu a datblygiad proffesiynol wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Strategol Addysg.*<br>*Mae'r ALl yn cefnogi datblygiad darparwyr arweinwyr ysgolion yn dda. Maent yn sicrhau y caiff ystod eang o gyfleoedd eu cynnig i arweinwyr canol ac uwch arweinwyr ddatblygu a gwella eu medrau arweinyddiaeth. Mae Rhaglen Darpar Arweinwyr yr awdurdod lleol yn gryfder penodol.  Caiff y rhaglenni hyn eu Adroddiad ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Ionawr 2023 21 cynllunio a'u gwerthuso'n effeithiol i fodloni disgwyliadau ac anghenion darpar arweinwyr, a chânt eu hesblygu a'u haddasu i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben. Mae Rhaglen Darpar Arweinwyr RhCT yn unigryw o ran ei dyluniad a'r modd y caiff ei chyflwyno. Caiff y rhaglen ei chynllunio er mwyn ymateb i anghenion penodol y garfan yn ogystal a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Bu'n arbennig o lwyddiannus o ran hyrwyddo twf personol a phroffesiynol y cyfranogwyr. Bu'n gymorth effeithiol, nid yn* |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | *unig i arweinwyr newydd benodedig, ond hefyd o ran cynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ym mhob ysgol yn RhCT dros y degawd diwethaf'.*<br><br>Bydd y Cynllun Strategol yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau arweinyddiaeth gref, llywodraethu a gwelliant parhaus a mewnosod arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a chanlyniadau da i bawb (blaenoriaethau 1 a 2). Bydd y rhain yn cael effaith gadarnhaol ar staff a disgyblion o bob oed.<br><br>Bydd y gwasanaethau gwella ysgolion sydd newydd eu sefydlu, gyda'r awdurdod lleol bellach wedi penodi ei Swyddogion Gwella Ysgolion ei hun, o gymorth pellach o ran cyflawni'r flaenoriaeth strategol o ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a chanlyniadau da i bawb.<br>Mae'r adroddiad canlynol i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2024 yn amlinellu canlyniad yr 'Adolygiad Haen Ganol' a arweiniodd at y newidiadau i'r gwasanaethau gwella ysgolion yn Rhondda Cynon Taf: |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Ymateb i Adolygiad Haen Ganol Llywodraeth Cymru - Cyfeiriad y Dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Gwella Ysgolion<br><br>Cyflawnir llawer o ganlyniadau cadarnhaol arolygiadau Estyn mewn ysgolion. Ym mis Hydref 2025, nid oedd 96.4% o'n hysgolion mewn unrhyw gategori dilynol Estyn, ond mae tair ysgol yn y categori statudol o fesurau arbennig ac un ysgol sydd angen gwelliant sylweddol.<br><br>Pan roddir ysgolion mewn categori statudol, mae gan Swyddog Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol rôl allweddol wrth frocera a darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion, cyflawni sefydlogrwydd a chyflymu gwelliant. Mae'r Swyddog yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, uwch arweinwyr/reolwyr, yr Uwch Swyddog Gwella Ysgolion, y garfan Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol a swyddogion yr awdurdod lleol er mwyn:<br>· cynllunio a gweithredu ymyriadau<br>· brocera a darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen<br>· monitro cynnydd ac adrodd arno |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n darparu cefnogaeth a her allanol yn dilyn gweithdrefnau clir wrth weithio gyda'r ysgol. Mae ffocws cryf ar y canlynol bob amser:<br>· nodi sut olwg fydd ar lwyddiant ar ddiwedd y broses<br>· cytuno ar y camau allweddol i'w cymryd gan arweinwyr ac ymarferwyr yr ysgol a'r rhai sy'n cefnogi'r ysgol<br>· datblygu cynllun gweithredu gyda cherrig milltir clir a nodi cyfrifoldebau<br>· darparu tystiolaeth sy'n dangos effaith y gefnogaeth<br>· cytuno ar y camau nesaf i gynnal momentwm ar y blaenoriaethau<br><br>Mae cefnogaeth o'r fath yn sicrhau y bydd cydweithio yn sbarduno'r gwelliant gofynnol (Blaenoriaeth Strategol 1).<br><br>**<u>Pob oedran</u>**<br><br>Mae agenda Ysgolion Bro yn rhaglen fuddsoddi allweddol i Lywodraeth Cymru. Ei amcan yw buddsoddi mewn amgylcheddau dysgu a hwyluso cydleoli gwasanaethau allweddol er mwyn sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gwarcheidwaid, a'r gymuned ehangach.  Mae'n rhan annatod o bolisi Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol er mwyn sicrhau safonau uchel a dyheadau i bawb.<br><br>Rhoddodd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant ar 9 Ebrill 2025 (Ysgolion Bro – Ymgysylltiad Teuluoedd mewn Dysgu) ddiweddariad ar y gwaith o ran Ysgolion Bro yn RhCT, gan amlinellu (ymysg pethau eraill):<br>- y buddsoddiad mewn Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd er mwyn helpu i wella presenoldeb yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig;<br>- penodi swyddog arweiniol ar gyfer Ysgolion Bro; a<br>- defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, y Cabinet a Grant Cyfalaf i gefnogi mentrau ysgolion bro.<br><br>Mae cyllid Grant Cyfalaf Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflawni gwelliannau cyfalaf i greu neu wella mannau ar safleoedd ein hysgolion er mwyn galluogi ymgysylltiad teuluol mwy ystyrlon, cryfhau ymgysylltiad cymunedol a chaniatáu ymgysylltiad amlasiantaeth a chydleoli gwasanaethau cymorth.  Fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar 22 Medi 2025 (Diweddariad ar raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor  |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | KB) Mae dros £3 miliwn o gyllid grant Ysgolion Bro wedi'i wario ar safleoedd ein hysgolion dros y tair blynedd diwethaf yn creu a gwella cyfleusterau, gan ganiatáu i fwy o ysgolion ymgysylltu a darparu mwy o wasanaethau mewn cydweithrediad â grwpiau cymunedol lleol a phartneriaid amlasiantaeth. Mae £1.65 miliwn arall wedi'i sicrhau i gyflawni gwelliannau pellach mewn naw ysgol ar draws y fwrdeistref sirol yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a fydd yn creu mannau diogel yn ein hysgolion lle gall partneriaid addysg, hamdden, iechyd, gofal cymdeithasol a datblygu cymunedol, gydweithio a darparu cefnogaeth gyfannol i deuluoedd mewn lleoliadau ysgol dibynadwy a chyfarwydd.<br><br>Mae agenda Ysgolion Bro yn ymestyn y tu hwnt i ysgolion a'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant ac rydyn ni'n ymgysylltu â phartneriaid ar lefel strategol i gefnogi cyfleoedd posibl fel cydleoli, i gefnogi ein gweledigaeth o ran **'Cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb'**. |
| **Anabledd** *(Pobl sydd ag anableddau* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir, yn ogystal | Nod y Cynllun Strategol yw sicrhau parhad rhagorol o ddarpariaeth ADY – yn benodol, mae blaenoriaethau strategol 3 a 4, sef 'sicrhau bod pob disgybl yn cael |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| *gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | | â staff, rhieni/gwarcheidwaid, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.<br><br>Fe gafodd Ddeddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addysg Ychwanegol (Cymru) 2018 (Deddf ALNET 2018) ei chyflwyno ym mis Ionawr 2018. O dan y Ddeddf yma, mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn parhau i adolygu trefniadau cynnal disgyblion ag ADY ac i ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. Mae'r Ddeddf yn cael ei chefnogi gan reoliadau newydd, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a Chod ADY statudol newydd.<br><br>Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau tegwch rhwng mynediad a deilliannau pob disgybl. Does dim ots am amddifadedd, rhyw, rhywioldeb, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ethnigrwydd, anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd<br><br>Maen nhw'n canolbwyntio ar 'ddilyniant a deilliannau da **i bawb'** (Blaenoriaeth Strategol 2) a 'sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth | mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan ' a 'chyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu' eisoes yn cael eu gweithredu gyda thwf yn y ddarpariaeth ADY yn cael ei weld trwy sawl prosiect ADY a gwblhawyd yn ddiweddar neu sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gan gynnwys:-<br>- Agor safle blynyddoedd cynnar ychwanegol ar gyfer Ysgol Hen Felin ym mis Ebrill 2025;<br>- Agorwyd 5 Dosbarth Cynnal Dysgu newydd ym mis Medi 2025 -<br>- Estyniad i Ysgol Arbennig Maesgwyn a agorwyd ym mis Medi 2025;<br>- Ysgol ADY newydd - sy'n cael ei hadeiladu ar hyn o bryd yng Nghwm Clydach - mae disgwyl iddi hi agor yn 2026.<br>- Estyniad i Ysgol Tŷ Coch (safle Buarth-y-Capel) - ar hyn o bryd yn y camau dylunio i'w gyflawni yn 2026.<br><br>Mae'n amod cyllido yn y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, fod yn rhaid i holl gyfleusterau ysgol newydd sy'n rhan o'r Rhaglen, gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae pob prosiect adeiladu ysgol newydd wedi'i adeiladu gyda hygyrchedd wrth wraidd y dyluniad ac mae pob prosiect yn cydymffurfio'n llawn â |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan' (Blaenoriaeth Strategol 3), yn ogystal â 'chyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu' (Blaenoriaeth Strategol 4).<br><br>Bydd yr holl flaenoriaethau strategol hyn yn cydweithio i gyfrannu at sicrhau bod disgyblion ag anableddau yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol.<br><br>Mae dulliau cydweithredol a chymorth wedi'i dargedu yn hanfodol i sicrhau ein bod yn darparu darpariaeth addysgol o ansawdd uchel i bawb, gan gynnwys disgyblion agored i niwed. Gweithrediad effeithiol y Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn dibynnu ar gydweithio fel bod disgyblion ag ADY yn derbyn cefnogaeth gynnar ac effeithiol trwy rannu gwybodaeth well a gwasanaethau cydgysylltiedig. Mae parhau i weithio mewn cydweithrediad agos â phartneriaid allweddol yn hanfodol ar gyfer creu system symlach, fwy tryloyw a llai gwrthwynebol sy'n cynnwys plant a'u rhieni/gwarcheidwaid yn | Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnig mynediad llawn i ysgolion prif ffrwd i staff a disgyblion anabl.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae cyllid capasiti ychwanegol ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd er mwyn sicrhau darpariaeth gadarn a chynhwysol i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd sydd ag ADY difrifol a pharhaus.<br><br>Mae cynlluniau cadarn ac addasiadau rhesymol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gan bob disgybl ag anableddau amgylcheddau dysgu hygyrch, a gwneir addasiadau ffisegol i adeiladau ysgol i sicrhau eu bod yn addas i'w hanghenion.<br><br>Mae Fforwm Ieuenctid RhCT hefyd yn cefnogi disgyblion niwroamrywiol.<br><br>Mae Cynllun Gweithredu Hygyrchedd ar waith i sicrhau bod strategaeth y Gyfadran ar gyfer 2023 i 2026 yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus.<br><br>Caiff deilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY eu dadansoddi'n rheolaidd i sicrhau bod cynnydd disgyblion a |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.<br><br>Cynhelir gwaith cynllunio ar y cyd yn rheolaidd rhwng Mynediad a Chynhwysiant a charfan Ysgolion yr 21ain y Ganrif i sicrhau bod cyllid grant a chyllid craidd yn cael ei flaenoriaethu'n briodol i wella hygyrchedd pob adeilad ysgol .<br><br>Yng ngoleuni data mewn perthynas â phresenoldeb ac eithriadau ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, mae'n amlwg bod angen gwelliannau pellach a bydd y Blaenoriaethau Strategol yn sicrhau bod hyn yn ffocws dros y pedair blynedd nesaf. | chanlyniadau grwpiau agored i niwed yn gwella, gan gynnwys data am waharddiadau a phresenoldeb.<br><br>Darparwyd gwybodaeth gryno yn ddiweddar yn Nhabl 4 o adroddiad i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant ar 10 Tachwedd 2025: Adroddiad Pwyllgor Craffu – Addysg. O ran presenoldeb, mae'n amlwg bod gwelliannau wedi'u gwneud yn y rhan fwyaf o grwpiau o ddisgyblion yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol. Serch hynny, erys cryn her yn enwedig yn y cyfnod uwchradd ac ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ag AAA/ADY. Credwn y gallai'r set ddata ar gyfer disgyblion AAA/ADY fod ychydig yn wahanol i'r rhai a gofnodwyd yn flaenorol oherwydd newid yn systemau rheoli gwybodaeth.<br><br>Mae Tabl 8 yr adroddiad uchod yn tynnu sylw at y data o ran gwaharddiadau ar gyfer ein grwpiau agored i niwed ar draws yr holl ysgolion. Mae'n amlwg bod cynnydd wedi'i wneud ar bob mesur wrth gymharu data 2023/24 â 2024/25, ac eithrio data ar gyfer disgyblion ag ADY ar gyfer gwaharddiadau tymor penodol. Fodd bynnag, dylid dehongli'r data hwn yn ofalus gan fod newidiadau sylweddol wedi bod yn y ffordd |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| | | | rydyn ni'n categoreiddio disgyblion ag ADY oherwydd gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yn raddol dros gyfnod pontio o bedair blynedd. Wrth symud ymlaen, dylai'r data fod yn fwy cymharol yn uniongyrchol gan y bydd gan bob disgybl ag ADY gynlluniau statudol yn dilyn dileu'r hen system AAA yn raddol. Mae'r data hefyd yn tynnu sylw at y ffaith, er bod gwelliannau wedi bod o ran ein cyfraddau gwahardd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim, eu bod yn dal i gael eu gor-gynrychioli yn ein data gwahardd, ac mae hyn yn gofyn am welliant pellach sydd wedi'i dargedu. |
| **Ailbennu Rhywedd** *(Unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc a allai fod wedi ailbennu eu rhywedd neu sydd wrthi'n gwneud hynny. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau mynediad a deilliannau cyfartal i bob disgybl.<br><br>Nid yw data am fwlio'n tynnu sylw at broblemau bwlio sylweddol yn ein hysgolion, ond rydyn ni'n ymwybodol nad yw hyn o bosibl yn adlewyrchu'n gywir y problemau a brofir yn yr ysgol, gan efallai | Blaenoriaeth Strategol 4 yw 'Cyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu' Bydd y prosiectau sy'n rhan o'r Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn cael eu hadeiladu yn unol â gofynion cyfredol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu. Byddan nhw'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999. Yn unol â Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999, mae cyfleusterau toiled (ystafelloedd ymolchi) niwtral o ran rhywedd wedi'u cynnwys yn y dyluniadau, ynghyd â chyfleusterau un rhyw. |

<table>
<tr><th>Nodweddion Gwarchodedig</th><th>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</th><th>Rhowch fanylion yr effaith</th><th>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?</th></tr>
<tr><td>enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)</td><td></td><td>na fydd disgyblion yn awyddus i ddatgelu rhai o'r heriau a wynebir.<br><br>Mae Blaenoriaeth Strategol 3 – 'Sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o’r ansawdd gorau a’r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan' yn nodi hyn fel maes i'w wella ac yn ceisio sicrhau bod polisïau a strategaethau gwrth-fwlio statudol yn effeithiol ac yn cadw disgyblion yn ddiogel. Cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Strategol yw darparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion ar ddatblygu diwylliannau ac arferion gwrth-fwlio cadarnhaol mewn ysgolion.<br><br>Caiff pob ysgol ei hannog i lunio polisïau ac arferion cynhwysol sy'n parchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo derbyn.</td><td>Mae data’n cael ei gasglu ynghylch digwyddiadau bwlio sy’n gysylltiedig â rhagfarn. O'r 424 o ddigwyddiadau bwlio a gofnodwyd yn RhCT yn 2024/25, cofnodwyd 101 (23.8%) fel digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac mae'r rhain wedi'u dadansoddi isod:-
<table>
<tr><th>Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn 2023/2024</th><th>Nifer y Digwyddiadau</th><th>% y Digwyddiadau</th></tr>
<tr><td>Hil</td><td>52</td><td>51.49%</td></tr>
<tr><td>Crefydd</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Diwylliant</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Homoffobig</td><td>10</td><td>9.90%</td></tr>
<tr><td>Biffobig</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Trawsffobig</td><td>1</td><td>0.99%</td></tr>
<tr><td>Rywiaethol a/neu rywiol</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Hunaniaeth rhywedd</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Oed</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>ADY neu anabledd</td><td>7</td><td>6.93%</td></tr>
<tr><td>Cysylltiedig â statws teuluol neu statws PDG</td><td>4</td><td>3.96%</td></tr>
<tr><td>Anfantais</td><td>3</td><td>2.97%</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| | | | Yn canolbwyntio ar ymddangosiad/gwedd \| 24 \| 23.76% |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** *(Pobl sydd wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil)* | Niwtral. | Nid ydyn ni'n disgwyl effaith ar y nodwedd warchodedig yma, serch hynny, os bydd effaith yn cael ei nodi yn ystod y broses ymgynghori, bydd hyn yn cael ei ddiweddaru. | Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi'u hadrodd hyd yma. |
| **Beichiogrwydd neu Famolaeth** *(Menywod sy'n feichiog/ar gyfnod mamolaeth)* | Cadarnhaol. | Mae'r Cynllun Strategol Addysg yn canolbwyntio ar gefnogi lles pob disgybl ac aelod o staff, a byddai hyn yn cynnwys y staff/disgyblion hynny sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth. | Mae darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar gael i ddisgyblion beichiog neu ddisgyblion sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig a'r cyfnod ôl-enedigol os nad ydynt yn gallu cael mynediad at addysg mewn lleoliad prif ffrwd ac os oes ganddynt wybodaeth feddygol ategol. Cyfeirir at y grŵp hwn yn benodol yn y polisi addysg heblaw yn yr ysgol. Mae gan Adnoddau Dynol lawer o bolisïau cefnogol sy'n ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth a byddai'r rhain yn cael eu gweithredu'n llawn gan y Gyfadran. |
| **Hil** *(Grwpiau ethnig neu o dras h.y. Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob hil. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau cydraddoldeb rhwng deilliannau pob disgybl, waeth beth fo'i ethnigrwydd neu grŵp hiliol. | O'r 2,744 o blant a safodd arholiadau Cyfnod Allweddol 4, nododd 169 nad oeddent yn Brydeinig (gwybodaeth ffurflen CYBLD) a'u sgôr gyfartalog wedi'i chapio yw 401.97 (sy'n uwch na chyfartaledd Prydain o 365.45).<br><br>Mae enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol yn cynnwys:- |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | **Blaenoriaeth Strategol 3 - 'Sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan'**<br>Mae'r Cynllun Strategol yn ceisio sicrhau bod polisïau a strategaethau gwrth-fwlio statudol yn effeithiol ac yn cadw disgyblion yn ddiogel. Cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Strategol yw darparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion ar ddatblygu diwylliannau ac arferion gwrth-fwlio cadarnhaol mewn ysgolion.<br><br>Caiff pob ysgol ei hannog i lunio polisïau ac arferion cynhwysol sy'n parchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo derbyn.<br><br>Nid yw data am fwlio'n tynnu sylw at broblemau sylweddol, ond nid yw hyn o bosibl yn adlewyrchu'n gywir y problemau a brofir yn yr ysgol, gan efallai na fydd disgyblion yn awyddus i ddatgelu rhai o'r heriau a wynebir. Cymerir camau i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir. | - Mae set o lyfrau llyfrgell wedi cael eu hariannu ar gyfer pob ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf gan awduron sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, gyda straeon yn ymwneud â diwylliant y Sipsiwn, Roma neu Deithwyr i godi ymwybyddiaeth.<br>- Gwaith cyswllt rhwng y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r sefydliad Travelling Ahead, sy'n tynnu sylw at unrhyw deuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw o gefndiroedd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr a allai fod angen cymorth ychwanegol.<br><br>Mae ymwybyddiaeth o hil yn rhan orfodol o Gwricwlwm Cymru a bydd yr agwedd hon ar gyflawniad ysgolion yn cael ei chefnogi trwy ddarparu Gwasanaethau Gwella Ysgolion a dysgu proffesiynol o ansawdd uchel.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig yn cefnogi ysgolion Rhondda Cynon Taf i gyflawni eu cyfrifoldeb i sicrhau bod disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn cael mynediad i'r Cwricwlwm ac yn cyrraedd eu potensial academaidd. Mae'r Gwasanaeth yma'n cefnogi ysgolion i sicrhau bod pob disgybl Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn cymryd rhan mewn, yn cael |

<table>
<tr><th>Nodweddion Gwarchodedig</th><th>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</th><th>Rhowch fanylion yr effaith</th><th>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Cynhelir llawer o weithgareddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol, gan gynnwys:-<br><br>• Grwpiau Myfyrio ar Gwrth-Hiliaeth ar gyfer staff yr ALI (bob hanner tymor)<br>• Grwpiau Myfyrio ar Gwrth-Hiliaeth ar gyfer staff yr ysgol (bob hanner tymor)<br>• Prosiect Rhyngweithiol Gwrth-Hiliaeth Cynefin ar gyfer Ysgolion mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Treftadaeth RhCT<br>• Ffurflen Monitro Hiliaeth yn cael ei datblygu a'i rhoi ar gyfnod prawf mewn ysgolion<br>• Prosiectau peilot ar gyfer ysgolion sy'n gweithio i ennill Gwobr Gwrth-Hiliaeth Leeds Beckett.<br>• Cylchlythyr Gwrth-Hiliaeth Tymhorol wedi'i sefydlu a'i ddosbarthu<br>• Banc adnoddau canolog ar gyfer ysgolion a staff yr ALI drwy PADLET<br>• Cydweithio â Darpl i ddatblygu hyfforddiant effeithiol ar gyfer ysgolion a staff yr ALI</td><td>mynediad i ac yn cyrraedd darpariaeth y Cwricwlwm, sy’n briodol i’w gallu deallusol.<br><br>Mae data’n cael ei gasglu ynghylch digwyddiadau bwlio sy’n gysylltiedig â rhagfarn. O'r 424 o ddigwyddiadau bwlio a gofnodwyd yn RhCT yn 2024/25, cofnodwyd 101 (23.8%) fel digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac mae'r rhain wedi'u dadansoddi isod, gyda'r mwyafrif yn ymwneud â hil:-<br><br>
<table>
<tr><th>Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn 2023/2024</th><th>Nifer y Digwyddiadau</th><th>% y Digwyddiadau</th></tr>
<tr><td>Hil</td><td>52</td><td>51.4%</td></tr>
<tr><td>Crefydd</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Diwylliant</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Homoffobig</td><td>10</td><td>9.90%</td></tr>
<tr><td>Biffobig</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Trawsffobig</td><td>1</td><td>0.99%</td></tr>
<tr><td>Rywiaethol a/neu rywiol</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Hunaniaeth rhywedd</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Oed</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>ADY neu anabledd</td><td>7</td><td>6.93%</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Nodweddion Gwarchodedig</th><th>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</th><th>Rhowch fanylion yr effaith</th><th>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><table>
<tr><td>Cysylltiedig â statws teuluol neu statws PDG</td><td>4</td><td>3.45%</td></tr>
<tr><td>Anfantais</td><td>3</td><td>2.97%</td></tr>
<tr><td>Yn canolbwyntio ar ymddangosiad/gwedd</td><td>24</td><td>23.76%</td></tr>
</table>
Bydd y Cynllun Strategol Addysg yn rhoi ffocws parhaus ar y canlynol:<br>Darparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion ar ddatblygu diwylliannau ac arferion cadarnhaol gwrth-hiliol a gwrth-fwlio yn ein hysgolion.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu Gred (Pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)</td><td>Cadarnhaol.</td><td>Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob crefydd a chred.<br>Mae'r Cynllun yn ymestyn i bob plentyn a pherson ifanc a phob ysgol. Mae wyth ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ysgol eglwysig) yn RhCT (ar draws y sectorau addysg gynradd ac uwchradd) sy'n cael eu hariannu'n bennaf gan yr Awdurdod Lleol, ond yn cael eu rhedeg naill ai gan yr Eglwys yng Nghymru neu Awdurdod Addysg Esgobaethol yr Eglwys Gatholig Rufeinig mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.</td><td>Mae codi ymwybyddiaeth o wahanol ffydd a chrefydd yn rhan orfodol o Gwricwlwm Cymru a bydd yr agwedd hon ar gyflawniad ysgol yn cael ei chefnogi trwy ddarparu Gwasanaethau Gwella Ysgolion a dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, ac adolygiad o ganlyniadau arolygu.</td></tr>
</table>

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** *(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob rhyw. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau mynediad a deilliannau cyfartal i bob disgybl.<br><br>Caiff yr holl ddata am ddeilliannau ei ddadansoddi yn ôl gwahaniaethau rhywedd ac i sicrhau bod ysgolion yn darparu cefnogaeth strategol briodol i sbarduno gwelliant a lleihau'r bwlch. Mae Blaenoriaeth Strategol 2 o'r Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar 'Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy’n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb' ac mae gweithio ar y cyd â llawer o bartïon yn allweddol yn hyn o beth.<br><br>Mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched mewn gwaharddiadau tymor penodol wedi lleihau ychydig yn 2024/25 ac mae angen gwneud mwy o waith i barhau â'r trywydd hwn. Mae rhai ysgolion wedi llwyddo i leihau eu cyfraddau gwahardd drwy fabwysiadu cwricwlwm mwy pwrpasol a chryfhau eu dull ysgol gyfan o reoli ymddygiad disgyblion. | Nid yw Dangosyddion Cyflawniad Allweddol Lleol ar gyfer disgyblion o oedran statudol yn cael eu cyhoeddi'n genedlaethol, fodd bynnag, mae dadansoddiad lleol o ddata wedi'i wirio o arholiadau haf 2024 yn dangos bod gwahaniaeth yn y sgôr wedi'i chapio o 16.52 rhwng bechgyn a merched yn bresennol a bod merched yn cyflawni'n well na bechgyn ar bob dangosydd cyflawniad, ac eithrio rhifedd.<br><br>Mae gwaharddiadau tymor penodol yn gyson uwch i fechgyn na merched (2023/24: 61.4% o wrywod, 38.6% o fenywod; 2024/25: 58.7% o fechgyn, 41.3% o ferched).<br><br>Mae gwaharddiadau parhaol hefyd yn dangos cyfran uwch ar gyfer bechgyn (2023/24: 65.5% o fechgyn, 34.5% o ferched; 2024/25: 64.3% o fechgyn, 35.7% o ferched). |

<table>
<tr><th>Nodweddion Gwarchodedig</th><th>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</th><th>Rhowch fanylion yr effaith</th><th>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Mae'r cynllun strategol yn nodi (fel deilliant ar gyfer Blaenoriaeth Strategol 3) gostyngiad o 15% mewn gwaharddiadau tymor penodol fesul 1,0000 o ddisgyblion a gostyngiad o 15% yn nifer y gwaharddiadau parhaol erbyn 2030.</td><td></td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd Rhywiol<br>(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)</td><td>Cadarnhaol.</td><td>Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o bob cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau mynediad a chanlyniadau cyfartal i bob disgybl.<br><br>Ymhellach, nod Blaenoriaeth Strategol 3 yw 'sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o’r ansawdd gorau a’r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan'.<br><br>Nid yw data am fwlio'n tynnu sylw at broblemau bwlio sylweddol yn ein hysgolion, ond efallai nad yw hyn o bosibl yn adlewyrchu'n gywir y problemau a brofir yn yr ysgol, gan efallai na fydd disgyblion yn awyddus i ddatgelu rhai o'r heriau a wynebir.</td><td>Mae Cwricwlwm Cymru yn ymgorffori addysg LHDTC+ drwy Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb orfodol a rhoi pwyslais ar brofiadau a hunaniaethau LHDTC+.<br><br>Mae data’n cael ei gasglu ynghylch digwyddiadau bwlio sy’n gysylltiedig â rhagfarn. O'r 424 o ddigwyddiadau bwlio a gofnodwyd yn RhCT yn 2024/25, cofnodwyd 101 (23.8%) fel digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac mae'r rhain wedi'u dadansoddi isod:-<br><br>
<table>
<tr><th>Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn 2023/2024</th><th>Nifer yr Achosion</th><th>% yr Achosion</th></tr>
<tr><td>Hil</td><td>52</td><td>51.4%</td></tr>
<tr><td>Crefydd</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Diwylliant</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Nodweddion Gwarchodedig</th><th>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</th><th>Rhowch fanylion yr effaith</th><th>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Mae Blaenoriaeth Strategol 3 – 'Sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o’r ansawdd gorau a’r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan' yn nodi hyn fel maes i'w wella ac yn ceisio sicrhau bod polisïau a strategaethau gwrth-fwlio statudol yn effeithiol ac yn cadw disgyblion yn ddiogel. Un cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Strategol yw darparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion ar ddatblygu diwylliannau ac arferion gwrth-fwlio cadarnhaol mewn ysgolion.<br><br>Caiff pob ysgol ei hannog i lunio polisïau ac arferion cynhwysol sy'n parchu amrywiaeth ac yn hyrwyddo derbyn.</td><td><table>
<tr><td>Homoffobig</td><td>10</td><td>9.90%</td></tr>
<tr><td>Biffobig</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Trawsffobig</td><td>1</td><td>0.99%</td></tr>
<tr><td>Rywiaethol a/neu rywiol</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Hunaniaeth rhywedd</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>Oed</td><td>0</td><td>0.00%</td></tr>
<tr><td>ADY neu anabledd</td><td>7</td><td>6.93%</td></tr>
<tr><td>Cysylltiedig â statws teuluol neu statws PDG</td><td>4</td><td>3.96%</td></tr>
<tr><td>Anfantais</td><td>3</td><td>2.97%</td></tr>
<tr><td>Yn canolbwyntio ar ymddangosiad/gwedd</td><td>24</td><td>23.76%</td></tr>
</table><br>Mae sesiynau gwybodaeth a chyngor/arweiniad mewn ysgolion yn RhCT yn cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid. Mae darpariaeth amser cinio ac ar ôl ysgol ar gael i gefnogi disgyblion LHDTC+.<br><br>Mae'r Gwasanaeth yma hefyd wedi cynnal prosiectau celf sy'n hyrwyddo gwaith aelodau dylanwadol o'r gymuned LHDTC+.</td></tr>
</table>

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(Unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc o deuluoedd y lluoedd arfog. | Dylai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar deuluoedd a allai fod angen cymorth wedi'i dargedu er mwyn eu helpu i symud i leoliad ysgol newydd mewn modd didrafferth a sicrhau parhad mewn dysgu, gyda blaenoriaeth strategol 3 yn ceisio sicrhau bod **pob disgybl** yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan'.<br><br>Rydyn ni'n parhau i weithio gydag SSCE Cymru i ddarparu cefnogaeth i blant a theuluoedd cymuned y lluoedd arfog.<br><br>Nid oedd data ynghylch nifer y plant o deuluoedd y lluoedd arfog yn RhCT ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ond caiff ei ychwanegu pan fydd ar gael. |
| **Cynhalwyr** *(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Cadarnhaol. | Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifainc sy'n gynhalwyr ifainc. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau mynediad a deilliannau cyfartal i bob disgybl.<br><br>Cafwyd cyflwyniad i ysgolion ar Gynhalwyr Ifainc, y gwasanaeth a chynllun cardiau | Mae cynhalwyr ifainc wedi'u dynodi'n grŵp agored i niwed ac o'r herwydd dylai staff yr ysgol fonitro'r canlyniadau'n agos.<br><br>Mae gan bob ysgol uwchradd yn RhCT Hyrwyddwr Cynhalwyr Ifanc dynodedig. Mae Gwasanaeth Cynhalwyr Ifanc a Chynhalwyr Brodyr a Chwiorydd Action for Children RhCT yn cefnogi cynhalwyr ifainc o fewn amgylchedd yr ysgol ac yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod ysgolion yn diwallu anghenion y |

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | adnabod ar 12/11/2025 yn rhan o Gynhadledd Ysgolion Bro.<br><br>Mae 36 o atgyfeiriadau wedi dod i law Gwasanaeth Cynhalwyr RhCT gan ysgolion/colegau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn cefnogi'r Gwasanaeth Cynhalwyr i gyflwyno ei neges a gwneud ysgolion yn ymwybodol o'r hyn mae'n ei gynnig. Mae'r cynllun adnabod yn galluogi Cynhalwyr Ifainc i ddangos eu statws mewn ysgolion (i ddangos pam eu bod o bosibl yn hwyr neu angen ffonio'r cartref). | cynhalwyr ifanc. Cynigir sesiynau galw heibio, gwasanaethau, sgyrsiau athrawon a gwersi ABCh. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud gydag ysgolion cynradd sy'n cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac sy'n ddi-hyder, neu a allai fod angen y gefnogaeth ychwanegol honno oherwydd eu rolau gofalu.<br>Gall pob ysgol yn RhCT weithio tuag at gyflawni Gwobr Cynhalwyr Ifainc, mae gennym sawl ysgol sydd ar Haen 1: Gwobr Efydd ac un ysgol ar Haen 2: Gwobr Arian<br><br>Mae adroddiad prosiect diwedd blwyddyn ar gyfer Gwasanaeth Cynhalwyr Ifainc a Chynhalwyr Brodyr a Chwiorydd RhCT Action for Children 2024/25 ar gael yma - Adroddiad diwedd blwyddyn Cynhalwyr Ifainc RhCT Action for Children<br><br>Mae nifer o gynhalwyr ifainc wedi'u nodi yn RhCT:-<br>- Gwasanaeth Cynhalwyr Ifainc – 160 ar agor i'r gwasanaeth<br>- Cerdyn Adnabod Cynhalwyr Ifainc – 282 wedi cofrestru (yn wahanol i weithio gyda'r gwasanaeth, nid oes angen cynnal asesiad i fanteisio ar y cerdyn adnabod)<br><br>Yn rhan o'r cynllun strategol newydd, bydd ffocws parhaus ar wella profiadau cynhalwyr ifainc yn cael ei gynnwys o dan Flaenoriaeth Strategol 3. |

**Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:**

Doedd dim effeithiau negyddol yn dod i'r amlwg. Felly, bydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn parhau i ymgynghori ar y Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026-2030, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet. Mae'r dystiolaeth i gefnogi'r casgliadau yma wedi'i disgrifio'n llawn yn y Cynllun Strategol drafft a'r adroddiad i'r Cabinet, dyddiedig 24 Tachwedd 2025. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Economaidd-Gymdeithasol yma'n ddogfen fyw, ac oherwydd hynny'n cael ei hadolygu gan y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn barhaus, a bydd yn rhan o Hunanwerthusiadau blynyddol y Gwasanaeth.

**Ydych chi'n hapus bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad?** Ydw: X Nac ydw:

**Enw:** Gaynor Davies
**Swydd:** Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
**Dyddiad:** 12 Tachwedd 2025

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

NODWCH - Mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion. Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o'r Canllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais Economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Mae hyn yn y pen draw yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig chi ei gael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed.<br>• Pensiynwyr.<br>• Plant sy'n derbyn gofal.<br>• Pobl ddigartref.<br>• Myfyrwyr.<br>• Cartrefi oedolion sengl. | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd.<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches.<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau.<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal.<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel / tlodi incwm** *(Does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati)* | Cadarnhaol. | Bydd gweithredu'r strategaeth yma'n gweld y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn parhau i gefnogi teuluoedd incwm isel ledled y fwrdeistref sirol.<br><br>Mae hi hefyd yn parhau i wella ansawdd y cymorth wedi'i dargedu fel bod deilliannau addysgol pob grŵp sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwella. | Y sgôr gyfartalog wedi'i chapio yn RhCT ar gyfer canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn 2024 yw 367.7. Mae hyn yn cyfateb i sgôr gyfartalog o 40.86 (sy'n gyfystyr â Gradd C). Ar gyfer **Disgyblion Prydau Ysgol Am Ddim**, y sgôr wedi'i chapio yw 311.18. Mae hyn yn cyfateb i sgôr gyfartalog o 34.58 (sy'n gyfystyr â Gradd D).<br>Y sgôr i ddisgyblion nad ydynt yn cael Prydau Ysgol am Ddim yw 380.94, sy'n fwlch o 69.76. Mae hyn yn cyfateb i sgôr gyfartalog o 42.33 (sy'n gyfystyr â Gradd C). |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r bwlch rhwng disgyblion dan anfantais a'u cyfoedion yn parhau i fod yn rhy eang ac mae gwella hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol i'r awdurdod ar draws pob mesur canlyniad.<br><br>Mae'r Cynllun Strategol newydd yn nodi y bydd rhoi cymorth i bob disgybl i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni ei botensial yn cael ei gyflawni wrth i bob partner yn cydweithio'n llwyddiannus i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng dyhead a chyflawniad.<br><br>Bydd pob un o'r blaenoriaethau strategol, os cânt eu cyflawni'n effeithiol, yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n byw ar incwm isel: Mae Blaenoriaeth Strategol 2: 'Ymgorffori arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb' yn nodi'r angen i gefnogi ysgolion i hunanwerthuso'n effeithiol a chyflwyno arferion gwella ysgolion cadarn sy'n sicrhau dilyniant cryf gan ddisgyblion ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad fel maes i'w wella.<br><br>Mae Blaenoriaeth Strategol 3: 'Sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at addysg | Mae nifer y disgyblion ar draws y fwrdeistref sirol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 19.9%, (sy'n cyfateb i 1 o bob 5 disgybl). Mae'r Strategaeth hon yn ymrwymo i barhau i hyrwyddo mynediad at glybiau brecwast a gellir nodi bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno cynnig Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol Llywodraeth Cymru cyn rhaglen Llywodraeth Cymru, ac wedi cynnal ymgyrch hyrwyddo weithredol i sicrhau bod pob teulu cymwys yn cael ei annog i wneud cais am statws cymwys am Brydau Ysgol am Ddim oherwydd ei fod yn rhoi mynediad at fudd-daliadau ehangach.<br><br>Bydd y strategaeth ysgolion bro'n parhau i dargedu strategaethau sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n profi tlodi incwm isel.<br><br>Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (y Mesur) yn gosod dyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydyn nhw'n byw y tu hwnt i bellter cerdded diogel i'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi), ysgol/dosbarth arbennig neu Uned Atgyfeirio Disgyblion fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg gynradd, a thair |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | gynhwysol o’r ansawdd gorau a’r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan' yn nodi cam gweithredu o sicrhau bod dull strategol cydlynol o gefnogi disgyblion sy'n byw mewn tlodi fel bod rhwystrau'n cael eu goresgyn a'r bwlch cyrhaeddiad yn cael ei gau.<br><br>Mae Blaenoriaeth Strategol 4: 'Cyflawni cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu' yn parhau i hyrwyddo datblygiad strategaeth ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. | milltir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg uwchradd.<br><br>Er bod yr awdurdod lleol wedi gwneud y penderfyniad yn ddiweddar (yn weithredol o fis Medi 2025) i gynyddu'r pellter cerdded diogel i oedran addysg uwchradd i dair milltir (o'i gynnig disgresiynol blaenorol o ddwy filltir), mae'r awdurdod lleol wedi arfer y pwerau disgresiynol a roddir iddo o dan y Mesur i wneud darpariaeth fwy hael i ddisgyblion ysgol gynradd, gyda'r pellter wedi'i osod ar filltir a hanner (yn hytrach na dwy filltir). (Mae cludiant am ddim i’w hysgol addas agosaf, lle bo lleoedd ar gael, wedi'i ddarparu ar gyfer disgyblion sy’n bodloni meini prawf un filltir a hanner ar ddechrau’r Cyfnod Sylfaen (tymor yr ysgol sy’n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 3 oed), yn hytrach nag ar ddechrau addysg orfodol (y tymor nesaf yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed)).<br><br>Mae cludiant am ddim hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion ôl-16 oed sy'n bodloni'r maen prawf 3 milltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae disgybl yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed). Mae’r ddarpariaeth yma’n gymwys yn achos cyrsiau amser llawn yn yr ysgol neu goleg sydd yn agosaf i gartref y disgybl ac sy’n darparu’r cwrs cymwys. |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Mae llawer yn cymryd rhan yn y Rhaglen Bwyd a Hwyl sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol drwy gydol cyfnod gwyliau'r haf; ac mae darpariaeth clwb brecwast a darpariaeth prydau ysgol am ddim yn helpu i gefnogi teuluoedd mewn angen.  Cyflwynwyd y Rhaglen Bwyd a Hwyl mewn 14 o leoliadau ysgol (gan gynnwys ysgolion ADY ac ysgolion Cymraeg) yn ystod cyfnod gwyliau'r haf 2025.<br><br>Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cefnogi sefydlu 10 cyfleuster Big Bocs Bwyd yn ein hysgolion sy'n cynnig cyfleuster siop talu-fel-y-mynnwch i deuluoedd yng nghymunedau'r ysgolion. |
| **Cyfoeth Isel a/neu dim cynilion** *(Digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim* | Cadarnhaol. | Mae'r Strategaeth yma'n ymrwymo i barhau i wella ansawdd y gefnogaeth wedi'i thargedu fel bod deilliannau addysgol pob grŵp agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sy'n byw mewn tlodi neu galedi ariannol, yn parhau i wella.<br><br>Bydd y Strategaeth yn sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael i bob disgybl i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad (Blaenoriaeth Strategol 3).  Fel y nodir uchod, | Y sgôr gyfartalog wedi'i chapio yn RhCT ar gyfer deilliannau Cyfnod Allweddol 4 yn 2024 yw 367.7.  Mae hyn yn cyfateb i sgôr gyfartalog o 40.86 (sy'n gyfystyr â Gradd C). I ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, y sgôr wedi'i chapio yw 311.18. Mae hyn yn cyfateb i sgôr gyfartalog o 34.58 (sy'n gyfystyr â Gradd D). I ddisgyblion nad ydynt yn cael Prydau Ysgol am Ddim, y sgôr yw 380.94, sy'n fwlch o 69.76.  Mae hyn yn cyfateb i sgôr gyfartalog o 42.33 (sy'n gyfystyr â Gradd C).<br><br>Mae nifer y disgyblion ledled y fwrdeistref sirol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 19.9%, (sy'n cyfateb i 1 o bob |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| *darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | | mae ymyrraeth a chefnogaeth ar gael i'r disgyblion mwyaf agored i niwed a'r rhai sydd dan anfantais, ynghyd â sicrhau dull cydlynol o gefnogi disgyblion, yn allweddol er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon.<br><br>Bydd llwyddo i gyflawni'n blaenoriaethau strategol yn sicrhau arweinyddiaeth gadarn ac ymarfer proffesiynol ar draws ein hysgolion gan arwain at well cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb, a chyfraddau gwahardd disgyblion, yn enwedig mewn carfannau o ddisgyblion difreintiedig ac agored i niwed sydd wedi'u targedu.<br><br>Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i leihau gwaharddiadau ac yn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddulliau mewn partneriaeth ag ysgolion a gwasanaethau ehangach yr awdurdod lleol i ddarparu dulliau amgen o fynd i'r afael ag ymddygiad heriol. | 5 disgybl). Nid yw'n glir pa ganran o deuluoedd â phlant sy'n profi cyfoeth isel neu ddim cyfoeth o gwbl. Mae'r Strategaeth hon yn ymrwymo i barhau i hyrwyddo mynediad at glybiau brecwast a gellir nodi bod yr awdurdod lleol wedi cyflwyno cynnig Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol Llywodraeth Cymru cyn rhaglen Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae llawer yn cymryd rhan yn y Rhaglen Bwyd a Hwyl sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol drwy gydol cyfnod gwyliau'r haf; ac mae darpariaeth clwb brecwast a darpariaeth prydau ysgol am ddim yn helpu i gefnogi teuluoedd mewn angen. Cyflwynwyd y Rhaglen Bwyd a Hwyl mewn 14 o leoliadau ysgol (gan gynnwys ysgolion ADY ac ysgolion Cymraeg) yn ystod cyfnod gwyliau'r haf 2025. Yn amodol ar barhau i dderbyn cyllid grant, bydd y Rhaglen hon yn parhau gan ei bod hi'n dod â llawer o fanteision i'r cymunedau mwyaf difreintiedig.<br><br>Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cefnogi sefydlu 10 cyfleuster Big Bocs Bwyd yn ein hysgolion sy'n cynnig cyfleuster siop talu-fel-y-mynnwch i deuluoedd yng nghymunedau'r ysgolion<br><br>Cynhelir cysylltiadau agos hefyd â phartneriaid fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac rydyn ni wedi helpu i gyflwyno ei rhaglen Cyngor i Deuluoedd yn ddiweddar. |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn swyddogion ymgysylltu â theuluoedd (34 o leoliadau ysgol hyd yma) sydd wedi gwella gallu ysgolion i gryfhau eu strategaethau ymgysylltu a'u cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae ysgolion hefyd wedi ymestyn eu cynnig dysgu i deuluoedd.<br><br>Mae deilliannau addysgol gwell yn parhau i gael eu cefnogi gan ymrwymiad yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Addysg a Lles i wella cyfraddau presenoldeb, yn enwedig o ran cefnogi ysgolion yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant ar 10 Tachwedd 2025 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddata presenoldeb ysgolion a chamau gweithredu'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles i gynyddu lefelau presenoldeb, ynghyd â chrynodeb o'r rhwystrau o ran presenoldeb: Presenoldeb a rhwystrau o ran ymgysylltu mewn ysgolion<br><br>Er bod presenoldeb yn y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu gan 1.3 pwynt canran rhwng 2022/23 a 2024/25 ac mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi cynyddu gan 2.2 pwynt canran yn yr un cyfnod. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi perfformio'n well na chynnydd cyfartalog Cymru o 1.5 pwynt canran yn yr un cyfnod. |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | Mae gan ddisgyblion sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim gyfraddau presenoldeb is na disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim:<br>88.2% yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim / 93.5% heb fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn 2024/25 ar lefel ysgol gynradd.<br>79.5% yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim / 90.0% heb fod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn 2024/25 ar lefel ysgol uwchradd<br>Nod y Cynllun Strategol yw cefnogi gwelliannau pellach yn y maes yma, gyda Blaenoriaeth Strategol 3 yn sicrhau bod 'pob disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o’r ansawdd gorau a’r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan'.<br><br>Rhwng 2023/24 a 2024/25, mae gwaharddiadau parhaol wedi gostwng gan 51.7%. Mae nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau ar draws yr awdurdod lleol yn yr un cyfnod wedi lleihau gan 23.5%. |
| **Amddifadedd materol** *(Methu â chael mynediad at gynnyrch sylfaenol h.y.* | Cadarnhaol. | Mae amddifadedd materol rhai disgyblion yn RhCT wedi dod yn fwy amlwg yn ystod yr argyfwng costau byw oherwydd caledi ariannol a phrofiadau niweidiol eraill. Bydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn parhau i roi cymorth i'r | Mae'r strategaeth yma'n ymrwymo i atgyfnerthu ein hymdrechion i roi cymorth i'r teuluoedd yma trwy swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r rolau yma o ymgysylltu â theuluoedd yn gwella cyfleoedd ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd y tu hwnt i giât yr ysgol, gan hyrwyddo gwaith amlasiantaeth a mynediad at gymorth teulu |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| *cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio/amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | | disgyblion yma trwy waith amlasiantaeth rhwng teuluoedd, ysgolion, a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. | amserol i oresgyn caledi ac unrhyw rwystrau sydd i ddysgu ac ymgysylltu. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cefnogi 34 o ysgolion i gyflogi Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd, gyda chynlluniau i ehangu hyn ymhellach yn 2025/26.<br><br>Mae mynediad da at grantiau gwisgoedd ysgol wedi'i sicrhau ac mae'n cael ei hyrwyddo'n bwrpasol.<br><br>Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cefnogi sefydlu 10 cyfleuster Big Bocs Bwyd yn ein hysgolion sy'n cynnig cyfleuster siop talu-fel-y-mynnwch i deuluoedd yng nghymunedau'r ysgolion.<br><br>Mae llawer yn cymryd rhan yn y Rhaglen Bwyd a Hwyl sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn y fwrdeistref sirol drwy gydol cyfnod gwyliau'r haf; ac mae darpariaeth clwb brecwast a darpariaeth prydau ysgol am ddim yn helpu i gefnogi teuluoedd mewn angen.  Cyflwynwyd y Rhaglen Bwyd a Hwyl mewn 14 o leoliadau ysgol (gan gynnwys ysgolion ADY ac ysgolion Cymraeg) yn ystod cyfnod gwyliau'r haf 2025.  Yn amodol ar barhau i dderbyn cyllid grant, bydd y Rhaglen hon yn parhau gan ei bod hi'n dod â llawer o fanteision i'r cymunedau mwyaf difreintiedig. |
| **Amddifadedd ardal** *(Lle* | Cadarnhaol. | Bydd y Strategaeth yn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd mwyaf | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma? |
|---|---|---|---|
| *rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | | difreintiedig y Fwrdeistref Sirol gan ymgysylltu'n well â theuluoedd drwy'r Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd.Defnyddir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar y cyd â data presenoldeb i benderfynu pa ysgolion sy'n derbyn cyllid Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd. O edrych ar amddifadedd yn unig, mae'r 18 ysgol gynradd fwyaf difreintiedig i gyd yn derbyn cyllid a'r 8 ysgol uwchradd/ysgol barhaus fwyaf difreintiedig i gyd yn derbyn cyllid. Rydyn ni'n mesur hyn yn seiliedig ar ganran y plant sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.<br><br>Defnyddir data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru hefyd fel dangosydd dirprwyol ar gyfer dirprwyo'r Cyllid Capasiti Ychwanegol ar gyfer pob ysgol brif ffrwd i gefnogi disgyblion ag ADY sylweddol.<br><br>Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion (a elwir bellach yn Grant Datblygu Disgyblion) yn darparu cyllid i ysgolion i helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgu ar gyfer disgyblion difreintiedig, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. | bach, a elwir hefyd yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yng Nghymru. o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae 1,909 o (ACEHIau). Yn seiliedig ar ddata 2025, mae 18.0% o ACEHIau yn y Fwrdeistref Sirol yn y 10.0% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd sy'n gweithio allan o ysgolion unigol yn parhau i ddarparu cefnogaeth amhrisiadwy i deuluoedd.  Mae'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi sicrhau cyllid a darpariaeth Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ar gyfer 34 o ysgolion gyda chynlluniau i ehangu hyn ymhellach yn 2025/26.<br><br>Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ynghylch ein Cynllun Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2025/26 – dyfyniadau isod:<br>*Mae cryfhau ymgysylltiad teuluol trwy gyfarfodydd Cymuned Ymarfer gyda Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a staff ysgol enwebedig yn gryfder clir. Dylai rhannu arferion gorau fel hyn helpu i sbarduno gwelliannau cyson ar draws ysgolion.*<br><br>*Rydyn ni am dynnu sylw at systemau cryf Awdurdod Lleol RhCT ar gyfer nodi a chefnogi ysgolion mewn angen, gan gynnwys y 'Strategaeth Monitro Ehangach ac Ymyrraeth Ysgolion sy'n Achosi Pryder'. Mae'r defnydd o nodiadau ymweliadau a monitro mewnol i olrhain cefnogaeth i* |

| Anfantais economaidd-gymdeithasol | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral? | Rhowch fanylion yr effaith | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma? |
|---|---|---|---|
| | | | *ddisgyblion agored i niwed, ochr yn ochr â ffocws clir ar addysgu a lles o ansawdd uchel, yn gadarnhaol iawn. Mae'n dda gweld atebolrwydd wedi'i ymgorffori, gyda datganiadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael eu trafod yn ystod ymweliadau'r Uwch Swyddogion Ymchwil a gwerthusiadau effaith cynhwysfawr yn cael eu cwblhau gydag ysgolion bob blwyddyn. Dylai'r dulliau hyn helpu i sbarduno deilliannau ac arweinyddiaeth well i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.* |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol** *(Dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni).* | Cadarnhaol. | Bydd mwy o weithio amlasiantaeth rhwng teuluoedd, ysgolion a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn gwella ymgysylltiad â theuluoedd yn y categori yma i sicrhau bod ganddyn nhw'r cymorth angenrheidiol i oresgyn rhwystrau sy'n atal eu plentyn rhag cyflawni ei botensial a chyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid lwybrau lles integredig gan sicrhau dulliau partneriaeth effeithiol o ddiwallu anghenion. Mae cydweithio wrth wraidd y Strategaeth newydd, yn ogystal â'r angen i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r rhai nad ydynt mewn tlodi. | Mae teuluoedd yn chwarae rolau canolog yn natblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol eu plant o'u genedigaeth hyd at y glasoed. Mae angen cymorth ar lawer o deuluoedd i fod yn fwy cadarn, ac i oresgyn yr holl ffactorau sy'n achosi straen yn sgil caledi ariannol. Byddai hynny'n golygu y bydden nhw mewn sefyllfa well i gynorthwyo â dysgu ac ymgysylltiad eu plentyn mewn addysg. Mae gwaith ymgysylltu â theuluoedd yn allweddol wrth gefnogi rhwystrau economaidd-gymdeithasol i ymgysylltu ag addysg. Mae swyddogaeth Gwerthuso Addysg y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi'i lleoli o fewn y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles gan sicrhau cysylltiadau cryf a chydweithio rhwng y ddwy Gyfadran. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud mewn perthynas â gwella dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac mae gwelliant yn cael ei wneud ym mhob rhan o'r system. Adroddiad Ysgolion Bro (Ebrill 2025) |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Strategaeth newydd yn rhoi ffocws parhaus ar fentrau ysgolion bro wrth symud ymlaen (Blaenoriaeth Strategol 4).<br><br>Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn ymgymryd â gwaith sy'n seiliedig ar hawliau mewn llawer o ysgolion uwchradd yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys sesiynau ynghylch democratiaeth a phrosesau pleidleisio. |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** *(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais)* | Cadarnhaol. | Bydd y Strategaeth yma'n rhoi cymorth i deuluoedd sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Fwrdeistref Sirol trwy waith amlasiantaeth gyda swyddogion ymgysylltu sy'n ymgysylltu'n well â theuluoedd. Bydd y defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i gael ei fonitro i sicrhau ei fod yn cyflawni deilliannau cadarnhaol i'r rhai sy'n profi anfantais gymdeithasol-economaidd.<br><br>Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau cydraddoldeb rhwng deilliannau pob disgybl, ni waeth beth fo'u statws amddifadedd<br>ac mae'r ffocws ar 'gyflawni dilyniant a deilliannau da i bawb**'** (Blaenoriaeth Strategol 2) a 'sicrhau bod **pob disgybl** yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach, a elwir hefyd yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yng Nghymru. o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae 1,909 o (ACEHIau). Yn seiliedig ar ddata 2025, mae 18.0% o ACEHIau yn y Fwrdeistref Sirol yn y 10.0% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant wedi sicrhau cyllid a darpariaeth Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd ar gyfer 34 o ysgolion gyda chynlluniau i ehangu hyn ymhellach yn 2025/26. Mae'r rolau yma o ymgysylltu â theuluoedd yn gwella cyfleoedd ysgolion i ymgysylltu â theuluoedd y tu hwnt i giât yr ysgol, gan hyrwyddo gweithio amlasiantaethol a mynediad at gymorth teulu amserol i oresgyn caledi ac unrhyw rwystrau sydd i ddysgu ac ymgysylltu.<br><br>Fe wnaeth cyflwyno'r Rhaglen Bwyd a Hwyl mewn 14 o ysgolion, (gan gynnwys Ysgolion ADY ac Ysgolion |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Rhowch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi’r farn yma?** |
|---|---|---|---|
| | | rhag dysgu a chymryd rhan' (Blaenoriaeth Strategol 3). | Cymraeg), drwy gydol cyfnod gwyliau'r haf 2025, ddarparu addysg bwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig y Fwrdeistref Sirol.  Cyflwynir y Rhaglen hon yn flynyddol.<br><br>Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi cefnogi sefydlu 10 cyfleuster Big Bocs Bwyd yn ein hysgolion sy'n cynnig cyfleuster siop talu-fel-y-mynnwch i deuluoedd yng nghymunedau'r ysgolion.<br><br>Cynhelir cysylltiadau agos hefyd â phartneriaid fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac rydyn ni wedi helpu i gyflwyno ei rhaglen Cyngor i Deuluoedd yn ddiweddar. |

**ADRAN 4 - ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN**

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

**4. a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei gael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau y byddai modd eu cymryd i'w leihau neu ei liniaru ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi? Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**
Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar grŵp gwarchodedig.

**4. b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.**
Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar grŵp gwarchodedig.

**4. c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg uchod, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff.**

- Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 (sgoriau cyfartalog wedi'u capio, bylchau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion Prydau Ysgol am Ddim)
- Data presenoldeb ac eithrio (gan gynnwys tueddiadau a newidiadau canrannol)
- Data am ddigwyddiadau bwlio (gan gynnwys dadansoddiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn)
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) ar gyfer amddifadedd ardal
- Gwybodaeth ffurflen CYBLD ar gyfer ethnigrwydd a chyflawniad
- Data am Gynhalwyr Ifainc (atgyfeiriadau, nifer y bobl sy'n defnyddio cardiau adnabod)
- Ffigurau buddsoddi (e.e., buddsoddiad cronnus o £988 miliwn mewn ysgolion ers 2014)
- Adroddiad Arolygu Estyn (2023) ar gyfer gwasanaethau addysg CBSRhCT
- Adroddiadau’r Cabinet a’r Pwyllgor Craffu:

    - *Y Diweddaraf am y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy*
    - *Cynigion i wella darpariaeth ADY*
    - *Presenoldeb a rhwystrau o ran ymgysylltu ag ysgolion*
    - *Ysgolion Bro – Ymgysylltu Teuluoedd â Dysgu*
- Adborth Llywodraeth Cymru ar Gynllun y Grant Datblygu Disgyblion

**4. d) Rhowch fanylion am sut aethoch chi ati i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.**

Mae ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid wedi digwydd yn benodol i lywio cyd-lunio’r Cynllun Strategol Addysg drafft ar gyfer 2026-30. Mae ffynonellau allweddol o ymgysylltu wedi cynnwys:

Cydweithwyr Addysg
- Arweinwyr Ysgolion: canlyniadau arolwg canfyddiad penaethiaid (Mawrth 2025) a chanlyniadau gweithdai (Mehefin 2025).
- Staff y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant: sesiynau gweithdy (Gorffennaf 2025).
- Cymdeithas Llywodraethwyr RhCT: sesiwn gweithdy (Gorffennaf 2025).

Ymgysylltu â'r Gymuned
- Grwpiau ffocws gyda rhieni/gwarcheidwaid (Mehefin 2025).
- Grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifainc (Mehefin 2025).

Undebau Llafur
- Cyd-bwyllgor Ymgynghori (Hydref 2025)

Manylion Sefydlu Aelodau Etholedig
- Cabinet: Adborth gan aelodau etholedig mewn cyfarfodydd, gan gynnwys sesiynau gwybodaeth i uwch swyddogion (parhaus).
- Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant: adborth aelodau mewn cyfarfodydd (parhaus).

Cyfadran y Cyngor

- Uwch Reolwyr y Cyngor: Adborth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr mewn cyfarfodydd yr Uwch Reolwyr a sesiynau gwybodaeth uwch swyddogion (parhaus).

Mae themâu sy'n dod i'r amlwg o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn ein gweledigaeth strategol a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella ar gyfer 2026-30.

Mae'r Asesiad Effaith hwn yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Addysg drafft sy'n cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet, gyda chais i gychwyn ymgynghoriad anstatudol. Os bydd cymeradwyaeth yn cael ei roi yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Tachwedd 2025, cynhelir ymgynghoriad anstatudol ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ein cymunedau, y gweithlu addysg, cyrff llywodraethu, aelodau etholedig a phartneriaid allweddol o 28 Tachwedd 2025 tan 23 Ionawr 2026.

Bydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant hefyd yn craffu ar y Cynllun Strategol ar gyfer 2026-30 ar 9 Rhagfyr 2025.

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd y Cynllun Strategol ar gyfer 2026-30 yn cael ei ddiwygio gan y Cyfarwyddwr Addysg newydd a'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror neu Fawrth 2026 i'w ystyried ymhellach. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y Cynllun Strategol Addysg newydd ar gyfer 2026-30 yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2026.

**4. e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Statudol Cydraddoldeb ac Dyletswyddau Statudol Economaidd-Gymdeithasol?**

Ydw: X Nac ydw:

## ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU

**5. a) Amlinellwch sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei roi ar waith:**

Bydd y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn adolygu'r Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn barhaus ar hyd y cynllun pedair blynedd trwy hunanarfarnu a thwy adborth gan randdeiliaid.

Bydd y Cynllun Strategol hefyd yn destun adolygiad blynyddol yn rhan o Hunanwerthusiad Blynyddol y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

**5. b) Erbyn pryd bydd rhaid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?**

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori anstatudol ac unrhyw welliannau cysylltiedig.

Yn flynyddol wedi hynny yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet.
Bwriad y Cynllun Strategol yw nodi'r cynnydd y byddwn ni'n ei gyflawni dros y pedair blynedd nesaf a bydd yn destun monitro ac adolygu parhaus, gydag adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal yn rhan o Hunanwerthusiad y Gwasanaeth.

**5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

**5. d) Sut bydd canlyniadau'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?**
Bydd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030 yn rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny y profwyd eu bod yn effeithiol wrth gyflawni ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'r meysydd a nodwyd o hunanarfarnu cadarn ac adborth gan randdeiliaid. Caiff canlyniadau monitro ein Cynllun Strategol ar gyfer 2026-2030, eu defnyddio i lywio strategaethau yn y dyfodol a byddan nhw'n rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny y profwyd eu bod yn effeithiol yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol cyfredol yma.

**ADRAN 6 - ADOLYGU**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y 'Penderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol, anfonwch eich asesiad effaith i BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried ystyriaethau amrywiaeth ac economaidd-gymdeithasol. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau'r Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| **Crynodeb o sylwadau'r Panel Adolygu:-**<br><br>**Asesiad Cyffredinol:**<br>Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro'n dda ac yn dangos blaenoriaethau clir. Mae cyfeiriadau at gydweithio effeithiol yn amlwg ond mae angen eu hintegreiddio'n gryfach i'r Asesiad Effaith.<br><br>**Sylwadau o'r Asesiad Effaith:**<br>○ Mae angen cyfeirio at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.<br>○ Mae sawl adran yn gofyn am alinio rhwng datganiadau a nodweddion gwarchodedig perthnasol (e.e., Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Hil).<br>○ Dylid ail-ymweld ag adrannau sydd wedi'u marcio "D/A" (e.e., Priodas/Partneriaeth Sifil, Beichiogrwydd/Mamolaeth) gan y gellir nodi effeithiau. | 12/11/25 | Cyfeiriadau at gydweithio wedi'u hatgyfnerthu drwy gydol yr Asesiad Effaith.<br><br>Cyfeiriad at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ychwanegu.<br><br>Adrannau wedi'u diweddaru i sicrhau bod yr effaith yn ymwneud yn benodol â'r nodwedd warchodedig unigol.<br><br>Gwybodaeth effaith wedi'i hychwanegu yn erbyn Priodas/Partneriaeth Sifil, Beichiogrwydd/Mamolaeth.<br><br>Data wedi'i ychwanegu ynghylch:<br>bylchau cyrhaeddiad;<br>presenoldeb;<br>gwaharddiadau;<br>bwlio. |

| | | |
|---|---|---|
| ○ Mae angen mwy o waith ar adrannau rhyw a chyfeiriadedd rhywiol i gydnabod bylchau mewn cyrhaeddiad a'r gefnogaeth sydd ar gael.<br>○ Mae angen i lawer o'r gwaith cadarnhaol a nodwyd yn y Strategaeth gael ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith mewn perthynas â'r adran incwm isel / tlodi incwm.<br>○ Dylid cyfeirio at fentrau cadarnhaol (e.e., cefnogaeth ADY, mesurau lleihau tlodi, Rhaglen Bwyd a Hwyl, Big Bocs Bwyd) mewn sawl rhan o'r ddogfen, nid dim ond mewn un maes.<br>○ Mae angen data ychwanegol ar gyfer cynhalwyr ifainc, teuluoedd y Lluoedd Arfog, ac ysgolion crefyddol.<br>○ Dylid cynnwys gwybodaeth / data am fwlio lle bo'n berthnasol.<br>○ Lleoli'r naratif yn gywir o fewn colofnau'r Asesiad Effaith a chynnwys y dyfyniadau/ffynonellau ystadegol sydd eu hangen yn Adrannau 4C a 4D. | | Ychwanegwyd data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru pellach at yr adrannau anfantais economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd ardal.<br>Mentrau cadarnhaol (e.e., cefnogaeth ADY, mesurau lleihau tlodi, Rhaglen Bwyd a Hwyl, Big Bocs Bwyd) wedi'u cyfeirio atynt mewn sawl rhan o'r ddogfen.<br>Gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys mewn perthynas â chynhalwyr ifainc, y Lluoedd Arfog ac ysgolion crefyddol.<br>Adrannau 4C a 4D wedi'u diweddaru i gynnwys gwybodaeth berthnasol o'r ddogfen. |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw addasiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| | | |

**ADRAN 7 - CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG**

**Nodwch grynodeb o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb isod. Dylid cynnwys y crynodeb yma yn adran effaith cydraddoldeb ac economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith cydraddoldeb ochr yn ochr â'r adroddiad.**

I grynhoi, mae'r Asesiad Cydraddoldeb ac Effaith Economaidd-Gymdeithasol yma'n nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a does dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchodedig.

A ninnau'n Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, ein pwrpas craidd yw sicrhau bod gan bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf fynediad i ysgolion rhagorol a phrofiadau addysgol cadarnhaol a chyfoethog, sy'n eu galluogi nhw i gyflawni'r deilliannau gorau posibl yn unol â'u gallu.

Mae'r Cynllun drafft yn cynnwys cyfeiriad strategol clir ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau cyffredin i gyflawni'r weledigaeth.

Wrth i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant edrych tua'r dyfodol, ein gweledigaeth yw:
**'Cydweithio'n effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb'.**

Bydd y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni drwy sicrhau bod arweinyddiaeth gref ar bob lefel; gweithio mewn partneriaeth effeithiol sy'n fuddiol i bawb; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'r bwlch cyrhaeddiad drwy sicrhau bod cyfleoedd addysg gynhwysol o'r ansawdd uchaf yn cael eu cynnig i bob disgybl; a buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau ysgol a chymunedol newydd a gwell drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ac agenda Ysgolion Bro.

Mae'r Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2026-2030) yn canolbwyntio ar yr angen am gydweithio effeithiol i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a chynhwysiant i bawb. Mae'r blaenoriaethau i sicrhau 'arferion addysgu, dysgu ac asesu rhagorol sy'n cyflawni dilyniant a deilliannau da i **bawb**' (Blaenoriaeth Strategol 2) ac i sicrhau bod '**pob** disgybl yn cael mynediad at addysg gynhwysol o'r ansawdd gorau a'r cymorth cywir i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chymryd rhan' (Blaenoriaeth Strategol 3) yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i'r Strategaeth gael effaith gadarnhaol ar **bob** plentyn a pherson ifanc. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u datblygu i sicrhau tegwch rhwng deilliannau pob disgybl. Does dim ots am amddifadedd, rhyw, rhywioldeb, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ethnigrwydd, anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd.

Mae'r holl ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chynlluniau gweithredu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cyfredol wedi cael eu

eu hystyried er mwyn annog a hwyluso Strategaeth sy'n addas at y diben.

**ADRAN 8 - AWDURDODI**

**Swyddog arweiniol:**
**Enw:** Nicola Goodman
**Swydd:** Arweinydd Cynllunio Strategol a Model Buddsoddi Cydfuddiannol
**Dyddiad:** 17 Tachwedd 2025

**Rydw i’n argymell bod y cynnig:**
Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau

**Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:**

**Enw:** Gaynor Davies
**Swydd:** Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
**Dyddiad:** 17 Tachwedd 2025

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i Uwch Reolwyr y Cyngor/Cabinet.